# CYDBWYLLGOR
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

**Cynhaliwyd ar: 8 Mawrth 2019**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Gareth O Williams**

**Awdur yr Adroddiad: Paula O'Hanlon / Huw Rees**

**Teitl: Cyllideb a Sefyllfa Ariannol Derfynol y Cydbwyllgor 2018/19**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion y rhagolwg o sefyllfa ariannol derfynol cyllideb refeniw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar gyfer 2018/19.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa ariannol a ragwelir ar gyfer yr AHNE yn 2018/19.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofyn i'r aelodau nodi'r rhagolwg diweddaraf o'r sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2018/19 (Atodiad 1) a chynnydd o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r AHNE ar gyfer 2018/19 fel y manylir yn Atodiad 1. Cyllideb gwariant gros yr AHNE yw £438,465. Y rhagolwg cyfredol o'r sefyllfa ariannol derfynol yw tanwariant o £8,354.

## 5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Bydd rheoli cyllidebau refeniw'r AHNE yn effeithiol yn helpu cyflawni blaenoriaethau a gytunwyd arnynt yn y cynllun rheoli ar gyfer y flwyddyn bresennol ac yn sail i weithgarwch ym mhob maes, yn enwedig ein perthynas â'n partneriaid cyllido a'n cyd-flaenoriaethau.

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

   Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

   *Amh*

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

   Cyflwynwyd y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2018/19 i gyfarfod y Cydbwyllgor ym mis Mehefin ac fe'i cymeradwywyd.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

   Mae'r adroddiad yn amlinellu'r rhagolwg diweddaraf o sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2018/19. Rhagwelir y bydd tanwariant o £8,354 ar hyn o bryd. Trosglwyddir unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrif cronfa wrth gefn yr AHNE.

   Ni chynigiwyd unrhyw ostyngiad i lefel y cyllid gan y tri Awdurdod ar gyfer cyllideb yr AHNE ar gyfer 2019/20. Dyfarnwyd grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2019/20.

   Serch hynny mae'r cyfnod hwn o ddarbodaeth yn y sector cyhoeddus yn debygol o barhau a rhaid cydnabod fod cyllidebau pob corff cyhoeddus yn debygol o wynebu pwysau cynyddol dros y blynyddoedd nesaf.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

    Mae'r gyllideb i'r dyfodol ar gyfer yr AHNE yn dibynnu ar incwm gan CNC a'r tri Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newidiadau i'r lefelau incwm hyn yn peri risg i gyflawni prosiectau yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yng Nghynllun Rheoli'r AHNE.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

    Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.